

# Arolygon amgylcheddol a pheirianneg

**Mae Bute Energy yn datblygu ynni adnewyddadwy ar y tir. Ein huchelgais yw pweru Cymru gydag ynni gwyrdd glân, a grymuso ein cymunedau drwy fuddsoddiad, swyddi a sgiliau. Rydyn ni wedi'n lleoli yng Nghymru ac yn awyddus i alluogi Cymru i elwa o ynni gwyrdd glân.**

**Mae Green GEN Cymru (Green Generation Energy Networks Cymru), yn rhan o grŵp Bute Energy ac mae'n datblygu datrysiad unigryw ar gyfer Cymru, darparu ynni adnewyddadwy ar gyfer pobl sy'n byw ar hyd a lled y wlad.**

Wrth gynllunio ein prosiectau, mae angen i ni gynnal nifer o arolygon i helpu i hysbysu'r gwaith o ddylunio'r cynllun a'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

Er mwyn ein helpu i ddatblygu ein cynigion a deall y camau lliniaru posibl sydd eu hangen, mae angen i ni arolygu ardal eang. Mae'r arolygon hyn yn cynnwys daeareg, ecoleg, a defnydd tir. Os byddwn yn gwneud cais i gynnal arolygon ar eich tir, nid yw o reidrwydd yn golygu ein bod yn cynllunio seilwaith ar y tir.

Mae'n bosibl y bydd angen cynnal arolygon am resymau amgylcheddol, ecolegol, archeolegol a pheirianneg; bydd y rhan fwyaf ohonynt yn "anymwthiol" (cerdded drosto), ond ar gyfer rhai arolygon "ymwthiol" mae'n bosibl y bydd angen drilio tyllau twrio, neu gloddio pyllau prawf.  Bydd ond yn bosibl cynnal rhai mathau o arolygon ecolegol ar adeg benodol o'r flwyddyn, neu yn y nos, pan fydd rhai rhywogaethau penodol (er enghraifft ystlumod a madfallod) yn fwy prysur.

## Gweithio gyda thirfeddianwyr a deiliaid

Rydym yn gweithio'n agos gyda thirfeddianwyr a deiliaid i sicrhau bod arolygon yn cael eu cynnal, lle bynnag y bo'n bosibl, ar adegau priodol gyda chyn lleied o anghyfleustra â phosibl.

Rydym yn gweithio'n gynnar i sicrhau cytundeb mynediad gwirfoddol gyda'r perchennog / deiliad lle bynnag y gallwn, ac fel arfer rydym yn cyflwyno Holiadur Budd Tir (LIQ) yr un pryd, i'n helpu i nodi pob parti sydd â budd cyfreithiol yn y tir.

Rydym bob amser yn trafod gweithdrefnau a llwybrau ar gyfer arolygon gyda'r tirfeddiannwr neu'r deiliad cyn cael mynediad i'r tir.  Fel arfer, byddwn yn rhoi o leiaf 48 awr o rybudd ymlaen llaw ac yn darparu manylion o'r math o arolwg, yr ardal y bydd yn ei chwmpasu a'r contractwr a fydd yn ei gynnal.

**Ynghyd â'n hymgynghorwyr a'n contractwyr, byddwn yn gyfrifol am ein diogelwch ein hunain wrth gynnal arolygon, ond gofynnwn i berchnogion a deiliaid roi gwybod i ni os ydynt yn credu bod unrhyw nodweddion neu sylweddau a allai fod yn beryglus yn bresennol.**

# Taliadau am arolygon a gwaith ymchwiliol

**Nid yw'r symiau isod yn daliadau am roi hawliau mynediad, ond yn iawndal ymlaen llaw am ddifrod ac aflonyddwch posibl yn sgil yr arolwg a'r gwaith ymchwilio.**



## Byddwn yn gwneud y taliadau iawndal ymlaen llaw canlynol:

### Arolygon Anymwthiol:

£250 fesul daliad tir fesul cyfnod o 12 mis.

Os oes angen ymweliadau yn ystod y nos:

£250 ychwanegol am ymweliadau hyd at 6 noson fesul daliad tir.

### Tyllau twrio a phyllau prawf:

£250 fesul twll twrio.

£250 fesul pwll prawf.

### Offer monitro dŵr:

£150 fesul medrydd fesul cyfnod o 12 mis.

Bydd angen cytuno ar iawndal sy'n uwch na'r ffigurau hynny ar sail unigol ar ôl cyflwyno tystiolaeth a phrawf o golledion.

## Talu ffioedd proffesiynol

**Byddwn hefyd yn talu ffioedd proffesiynol rhesymol, fel y'u nodir isod, am gyngor a chymorth mewn cysylltiad â llunio'r Holiadur Budd Tir a'r drwydded mynediad arolwg gwirfoddol.**

### Ffioedd Asiantau:

Ffi sefydlog o £250 fesul daliad tir mewn cysylltiad ag arolwg a gwaith ymchwilio.

Ffi sefydlog o £150 fesul Person sydd â Budd yn y Tir er mwyn helpu i gwblhau'r Holiadur Gwybodaeth Tirfeddiannwr (LIQ).

